Prifysgol Abertawe
Swansea University

# Disgrifiad Swydd: Arweinydd Sicrhau Ansawdd a Phrofiad Defnyddwyr

| | |
|---|---|
| **Adran** | GGS |
| **Teitl y Swydd** | Arweinydd Sicrhau Ansawdd a Phrofiad Defnyddwyr |
| **Swyddogaeth** | Atebion Digidol |
| **Cyflog:** | Gradd 9: £46,735 – £55,755 y flwyddyn ynghyd â buddion pensiwn USS |
| **Oriau gwaith:** | 35 awr |
| **Contract:** | Parhaol |
| **Lleoliad:** | Singleton |

| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | Er mwyn cyflawni ei huchelgais cynaliadwy o fod ymysg y 30 o brifysgolion gorau, mae angen gweithlu gwasanaethau proffesiynol ar Brifysgol Abertawe â'r sgiliau amrywiol i sicrhau y gall gyflawni rhagoriaeth drwy systemau a phrosesau effeithlon ac effeithiol sy'n manteisio ar ddatblygiadau technolegol. |
| **Gwybodaeth gefndirol** | Fel yr awdurdod ar ansawdd, bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am bennu safonau ansawdd ar gyfer atebion digidol ar draws amrywiaeth o dimau, technolegau a phlatfformau, cydlynu adnoddau a sgiliau yn eich tîm a chydweithredu â thimau eraill i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael.<br><br>Byddwch chi'n gyfrifol am greu a rheoli'r fframwaith ansawdd y bydd pob tîm yn gweithredu yn unol ag ef ac am sicrhau bod atebion yn bodloni safonau cytunedig o ran profi, hygyrchedd a phrofiad defnyddwyr. Byddwch chi hefyd yn gyfrifol am reoli'r ôl-groniad o waith ac am sicrhau bod y tîm yn gweithio yn unol ag arferion gweithio ystwyth.<br><br>Byddwch chi'n gwerthuso eich effaith bersonol yn barhaus er mwyn gwella fel gweithiwr proffesiynol ac ysgogi perfformiad cynaliadwy.<br><br>Byddwch chi'n gweithio'n agos gyda phartneriaid busnes, rheolwyr prosiect a rhanddeiliaid allweddol eraill, i ganfod, deall a blaenoriaethu gofynion a sicrhau bod atebion yn darparu gwerth am arian. Bydd angen i chi hefyd gydbwyso rhwng newid busnes fel arfer, newid prosiect a galwadau sy'n dod i'r amlwg. |
| **Prif Ddiben a Dyletswyddau'r Swydd** | Fel Arweinydd Sicrhau Ansawdd a Phrofiad Defnyddwyr, byddwch yn gyfrifol am reoli'r tîm sy'n dylunio, yn rheoli ac yn datblygu'r fframwaith sicrhau ansawdd ar gyfer datblygu, profi a rhyddhau atebion. Byddwch yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth i'r tîm ac yn dirprwyo ar ran pennaeth y gwasanaeth yn ôl yr angen.<br><br>Yn y rôl hon, byddwch yn:<br><br>1. Rheoli tîm o beirianwyr sicrhau ansawdd a phrofiad defnyddwyr.<br>2. Creu ac yn cynnal y fframwaith sicrhau ansawdd sy'n sicrhau bod atebion yn cael eu cyflawni, gan ddefnyddio safonau cytunedig o ran dyluniad, hygyrchedd, profiad defnyddwyr, profi a rhyddhau. Byddwch yn asesu'r fframwaith yn barhaus ac yn chwilio am gyfleoedd i wella.<br>3. Gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod atebion a newidiadau yn cael eu dylunio'n dda, eu bod yn cael eu profi a'u rhyddhau yn unol â'r broses rheoli rhyddhau.<br>4. Sicrhau bod eich tîm yn darparu atebion gan ddefnyddio methodolegau a fframweithiau ystwyth.<br>5. Arwain prosiectau yn unol â fframwaith gweithredu a rheoli prosiectau'r Brifysgol. |

| | |
|---|---|
| | 6. Cydweithredu â phartneriaid busnes, rhanddeiliaid a chwsmeriaid er mwyn creu ôl-groniad trefnus o flaenoriaethau ac amserlenni cyflawni ar gyfer gwaith datblygu yn y maes perthnasol.<br>7. Sicrhau y caiff atebion a newidiadau eu dylunio'n dda, eu profi a'u rhyddhau yn unol â'r broses rheoli rhyddhau.<br>8. Dadansoddi goblygiadau'r cyd-destun defnyddio ar gyfer datblygu systemau.<br>9. Cynghori ar ddehongli brandio'r sefydliad ar gyfer amgylcheddau digidol newydd.<br>10. Gwerthuso agweddau dylunio ar dendrau a chynigion gwe gan gynnwys fframiau gwifr a brasfodelau. Byddwch yn sicrhau bod datblygwyr systemau'n deall canlyniadau gwerthusiadau.<br>11. Arwain cymuned ymarfer ar y cyd â gweithwyr proffesiynol eraill ym maes profiad defnyddwyr ar draws y sefydliad, er mwyn sicrhau y caiff galluedd cyson o ran profiad defnyddwyr ei ddatblygu a'i gynnal.<br>12. Cyfrannu at ddatblygu polisïau, safonau, saernïaeth a chanllawiau.<br>13. Ceisio adborth a gweithredu arno'n barhaus i ddysgu a datblygu fel gweithiwr proffesiynol, gan gymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol parhaus eich hun a bod yn esiampl i gydweithwyr. Byddwch yn chwilio am gyfleoedd i wella pobl a phrosesau'n barhaus. Disgwylir i'r holl staff TG ddatblygu er twf personol a phroffesiynol neu yn unol â gofynion gweithredol. |
| **Dyletswyddau Cyffredinol** | • Cyfrannu'n llawn at bolisïau Galluogi Perfformiad ac Iaith Gymraeg y Brifysgol.<br>• Hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn arferion gwaith a chynnal perthnasoedd gweithio cadarnhaol.<br>• Arwain wrth wella perfformiad iechyd a diogelwch yn barhaus drwy ddealltwriaeth gadarn o broffil risg a datblygu diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.<br>• Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn ôl cais rhesymol Pennaeth y Coleg/yr Adran neu rywun sy'n gweithredu â'i awdurdod, yn unol â diffiniad y radd.<br>• Sicrhau bod rheoli risg yn rhan hanfodol o'r broses gwneud penderfyniadau, drwy sicrhau cydymffurfiaeth â Pholisi Rheoli Risg y Brifysgol |
| **Gwerthoedd Arweinyddiaeth** | Mae holl feysydd Gwasanaethau Proffesiynol ym Mhrifysgol Abertawe yn gweithredu'n unol â set ddiffiniedig o Werthoedd Craidd, a disgwylir i bawb allu dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn o adeg cyflwyno cais am swydd i gyflawni'u rôl o ddydd i ddydd. Mae ymrwymiad i'n gwerthoedd ym Mhrifysgol Abertawe yn ein cefnogi wrth hyrwyddo cydraddoldeb ac wrth werthfawrogi amrywiaeth er mwyn defnyddio'r holl ddoniau sydd gennym.<br>Yn ogystal, byddwch chi'n gweithredu yn unol â set ddiffiniedig o [Werthoedd Arweinyddiaeth](#):<br><br>**Rydym yn Broffesiynol**<br>Rydym yn ein datblygu ein hunain ac yn datblygu ein timau drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn defnyddio adborth i wella. Rydym yn creu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, gan gefnogi, datblygu a herio ein timau i lwyddo. Rydym yn cynnwys ein pobl wrth ddatblygu gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a galluogi arloesi a newid, gan wella perfformiad y Brifysgol, timau ac unigolion.<br><br>**Rydym yn Cydweithio**<br>Rydym yn galluogi ein timau i weithio ar y cyd ac ar draws swyddogaethau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. Rydym yn gyfrifol am greu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb ac yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her. Rydym yn atebol am ddarparu eglurder a chyfeiriad, cyfleu'r "darlun mawr" a manteisio ar syniadau a chyfleoedd i wireddu gweledigaeth y Brifysgol.<br><br>**Rydym yn Ofalgar**<br>Rydym yn creu amgylcheddau sy'n nodi ac yn deall anghenion Cymuned y Brifysgol (ein myfyrwyr, ein cydweithwyr, ein partneriaid allanol a'r cyhoedd), gan roi blaenoriaeth i ddiwallu'r rhain. |

| | |
|---|---|
| | Rydym yn ysgogi ac yn ysbrydoli ein timau i ddarparu'r safonau uchaf o ofal personol ac, wrth wneud hynny, rydym yn cynnal brand Prifysgol Abertawe.<br><br>• Tystiolaeth o greu diwylliant sy'n cyflawni canlyniadau llwyddiannus drwy bobl, datblygu a herio timau i lwyddo ac ymfalchïo mewn darparu gwasanaethau ac atebion proffesiynol.<br>• Y gallu i alluogi timau i weithio gyda'i gilydd ar draws swyddogaethau i gyflawni canlyniadau llwyddiannus sy'n rhagori ar anghenion a disgwyliadau cwsmeriaid, a chreu amgylcheddau sy'n dangos cydraddoldeb, yn meithrin ymddiriedaeth, parch a her.<br>• Tystiolaeth o brofiad o greu amgylcheddau sy'n cydnabod, yn deall ac yn blaenoriaethu anghenion cwsmeriaid, ac o ysgogi ac ysbrydoli timau i ddarparu gofal wedi'i bersonoli o'r ansawdd uchaf. |
| **Manyleb Person** | **Cymwysterau:**<br><br>• Gradd neu gymhwyster cyfwerth mewn disgyblaeth berthnasol.<br><br>**Gwybodaeth a phrofiad:**<br><br>• Tystiolaeth o arwain a rheoli tîm yn llwyddiannus er mwyn datblygu atebion yn brydlon ac yn ôl y safon ofynnol.<br>• Profiad amlwg fel Prif Ddylunydd Profiad Defnyddwyr/Dylunydd Profiad Defnyddwyr Arweiniol, gan gyflawni'n llwyddiannus ar draws amrywiaeth eang o feysydd busnes allweddol mewn un neu fwy o fentrau mawr.<br>• Profiad o weithio ar draws timau datblygu er mwyn darparu atebion o safon uchel sy'n bodloni disgwyliadau cwsmeriaid.<br>• Dealltwriaeth ddofn o egwyddorion profiad defnyddwyr, personâu, defnyddioldeb a disgyblaethau profiad defnyddwyr eraill megis profi A/B.<br>• Amrywiaeth eang o brofiad o ddylunio gwasanaethau digidol sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid (e.e. defnyddio personâu, mapio teithiau defnyddwyr etc.).<br>• Profiad blaenorol o arwain datblygiad prosesau profiad defnyddwyr mewn sefydliad, er mwyn uchafu'r gwerth a gyflawnir drwy'r galluedd profiad defnyddwyr.<br>• Profiad o fentora dylunwyr profiad defnyddwyr eraill.<br>• Y gallu i arddangos gwybodaeth ymarferol am arferion ystwyth, ynghyd â phrofiad ymarferol o arwain gwaith i ddylunio profiad defnyddwyr fel rhan o dîm prosiect ystwyth.<br>• Profiad o ddylunio gwasanaethau i ddefnyddwyr ag amrywiaeth eang o anghenion hygyrchedd.<br>• Profiad o gynllunio neu gynnal ymchwil a phrofi gyda defnyddwyr.<br>• Profi gweithgareddau a chynghori ar risgiau sy'n deillio o brofiad gwael i ddefnyddiwr.<br>• Sgiliau delio â rhanddeiliaid/cyfathrebu ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar.<br><br>**<u>Meini Prawf Dymunol:</u>**<br><br>• Profiad o weithio gydag Azure DevOps neu system debyg<br>• Gallu cyfathrebu yn Gymraeg<br>• Sylfaen ITIL v3 neu v4<br>• Tystiolaeth o ddatblygiad proffesiynol parhaus a defnyddio sgiliau proffesiynol perthnasol<br>• Profiad o weithio mewn amgylchedd ystwyth<br><br>**Iaith Gymraeg:**<br><br>Lefel 1 – 'ychydig' (ni fydd angen i chi allu siarad Cymraeg i gyflwyno cais am y rôl hon)<br>*er enghraifft, ynganu geiriau Cymraeg, enwau lleoedd, enwau adrannau. Gallu ateb y ffôn yn Gymraeg (bore da/pnawn da). Gallu defnyddio/dysgu geiriau, ymadroddion pob dydd sylfaenol* |

| | |
|---|---|
| | *(diolch, os gwelwch yn dda, esgusodwch fi). Gallwch gyrraedd Lefel 1 drwy gwblhau cwrs hyfforddiant un awr.* |
| **Gwybodaeth Ychwanegol** | **Ymholiadau anffurfiol**<br><br>Os oes gennych gwestiynau am y rôl hon, e-bostiwch Dave Thomas, Pennaeth Atebion Digidol - d.a.thomas@abertawe.ac.uk |